Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanddoged
# Llanddoged
# Llanrwst
# Conwy
# LL26 0BJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys Yng Nghymru yw Ysgol Llanddoged, sydd wedi ei lleoli yng nghanol y pentref ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos.  Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un sydd yn gymysg o ran cefndir cymdeithasol a heb fod yn ffyniannus nac yn dioddef anfanteision economaidd.

Mae 67 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys wyth o blant meithrin yn rhan amser.  Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw 81% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf.  Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu.  Nid oes disgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd.  Tua 4% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r ffigur cenedlaethol, ac mae nifer bach o ddisgyblion ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanddoged yn 2011-2012 yw £4,107. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £13,941 a'r lleiafswm yw £2,935.  Mae Ysgol Llanddoged yn safle 26 o'r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy  o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr haf 2006.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ebrill 1996.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- bod yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol, gyda defnydd effeithiol o'r cymorthyddion dosbarth; ac
- mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth adnabyddiaeth dda o'r ysgol;
- bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ymdrechion i godi safonau;
- bod y staff yn gweithio yn effeithiol fel tîm; a
- bod yr ysgol wedi adnabod agweddau penodol priodol i'w datblygu i'r dyfodol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 codi safonau ysgrifennu disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen;

A2 cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer datblygiad y medrau ar draws y cwricwlwm;

A3 sicrhau cysondeb o ran ymateb yn effeithiol i waith disgyblion;

A4 sicrhau fod y cynllun datblygu yn adlewyrchu'n llawn y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg drwy hunanarfarnu; ac

A5 ymateb i'r materion iechyd a diogelwch y cyfeiriwyd atynt yn ystod yr arolygiad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd ysgolion Cymru. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn anwastad dros gyfnod oherwydd natur fechan y garfan disgyblion ac effaith disgyblion anghenion ychwanegol ar y data.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chanran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd ysgolion Cymru.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg yn y ddau gyfnod allweddol wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chanran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg dros gyfnod o amser.

Mae gwaith cyfredol y disgyblion yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau yn gyffredinol drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn effeithiol i wahanol bwrpasau yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion ac ar gyfraniadau eu cyfoedion yn ystod gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau yn dorfol ac o fewn grwpiau. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar yn ynganu'n ddealladwy a defnyddiant amrediad eang o eirfa gyda lefel dda o gywirdeb. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n eglur yn y ddwy iaith a thrafodant brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol ac yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac o fewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i ddarllen yn ystyrlon. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae mwyafrif o'r disgyblion yn gallu darllen llyfrau Saesneg syml yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Maent yn gallu dewis a dethol rhannau penodol o lyfrau at eu defnydd yn eu gwaith.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg ac ar draws y meysydd cwricwlaidd yng nghyfnod allweddol 2, yn y ddwy iaith yn dda. Er hyn nid yw disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen bob amser yn ysgrifennu yn ddigon ymestynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu yn glir ac yn ymestynnol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a'r bechgyn.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Mae disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fwyta'n iach a chadw'n heini yn dda. Mae nifer sylweddol o'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar weithgareddau addysg gorfforol. Cymerant ran mewn ystod eang o gystadlaethau a thwrnamaint chwaraeon yn lleol a chenedlaethol. Mae hyn, ynghyd â'r gweithgareddau ôl ysgol, yn cyfrannu yn sylweddol at hyder y disgyblion ac at eu dealltwriaeth o'r angen i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn eu gwersi ac ar adegau llai ffurfiol ym mywyd yr ysgol ac maent yn ofalgar o'i gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu yn briodol tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cadw ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig ac yn gwneud defnydd da o'u hamser.

Mae presenoldeb yn dda. Mae'r cyngor ysgol yn llais effeithiol i ddyheadau'r disgyblion ac wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiol agweddau gan gynnwys iechyd, amgylchedd yr ysgol ac adnoddau i'w prynu. Trefna'r disgyblion weithgareddau cyson i godi arian at achosion da o'u dewis hwy. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol ar hyn o bryd yn gweithredu'n ddigon annibynnol mewn agweddau fel rheoli ei gyllid ei hun.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgareddau o fewn y gymuned leol gan gynnwys cyngherddau a gwasanaethau yn rheolaidd. Mae'r profiadau hyn yn ychwanegu'n dda at ymdrechion yr ysgol i feithrin hyder yn y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gwersi wedi'u

cynllunio'n dda gan gynnig ystod o brofiadau diddorol ar ac oddi ar y safle. Arenwir y cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth o fewn y cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r medrau wedi eu mapio yn ddigon manwl ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau dilyniant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn effeithiol ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da iawn. Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus fel bod y disgyblion sy'n newydd i'r ysgol yn caffael yr iaith yn gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig drwy weithgareddau penodol am hanes a daearyddiaeth leol ac mae ymweliadau i'r ysgol gan rieni i sôn am fywyd yr ardal yn hyrwyddo'r gwerthoedd o berthyn i'w bro.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol ar gampws yr ysgol sy'n cynnwys ailgylchu, compostio a gweithgarwch yr ardd natur. Mae'r rhain yn cyfrannu'n bositif at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd eang yn dda a cheir cysylltiadau gyda gwledydd tramor. Trwy ddilyn y cynllun Comeniws llwyddwyd i gyfoethogi'r ddarpariaeth ryngwladol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac mae'n sicrhau bod y disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae'r arfer orau o fewn mwyafrif y gwersi yn gwneud defnydd pwrpasol o gwestiynu agored sy'n hybu cyfranogiad y disgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Ceir cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r staff ategol ar draws yr ysgol. Yn y lleiafrif o'r gwersi lle mae rhai agweddau i'w cryfhau, mae cyflymdra'r gwersi yn araf ac nid oes digon o her i'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn ymateb yn adeiladol i waith disgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Lle ceir yr arfer orau gwelwyd defnydd pwrpasol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn adnabod y camau nesaf yn y dysgu. Mae hefyd enghreifftiau da iawn o farcio manwl yn llyfrau'r disgyblion, sy'n ymateb yn adeiladol i'w gwaith ac yn eu helpu i ddeall sut i ddatblygu. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi datblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefn ffurfiol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion sy'n adnodd effeithiol ar gyfer adnabod gwahanol garfanau o ddisgyblion ac ymateb i'w hanghenion.

Mae'r adroddiadau i rieni ar gynnydd disgyblion yn darparu gwybodaeth briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach.

Hyrwyddir datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol drwy

ethos gofalgar yr ysgol a chyd addoli. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy brofiadau chwaraeon, perfformio ac eisteddfodol.

Mae proses sefydlu priodol ar gyfer disgyblion newydd ac mae'r trefniadau trosglwyddo i addysg uwchradd wedi'u hen sefydlu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Llwydda'r ysgol i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn fuan ac mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i bryderon. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a'u diweddaru yn effeithiol ac mae lefel uchel o ymgynghori â rhieni. Gwna'r ysgol ddefnydd buddiol o wasanaethau arbenigol i ehangu'r ddarpariaeth gan gynnwys cynnig arweiniad ar adnabod ac ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae ethos cartrefol a chroesawgar yn yr ysgol sy'n sicrhau fod y disgyblion yn cyd-dynnu'n dda ac yn gofalu am ei gilydd. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm a pherthynas dda gyda'u cyfoedion a staff yr ysgol.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy weithgareddau dosbarth a rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn cynnig gofod addas a chyfleusterau priodol yn dilyn newidiadau i'r adeilad ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu gyda'r llywodraethwyr a'r rhieni. Mae wedi llwyddo i ddatblygu ysbryd cynhwysol trwy sicrhau cyfle i bawb gael mynegi barn am waith yr ysgol. Mae'r holl staff yn cyd-weithio'n effeithiol fel tîm trwy drafod anghenion y disgyblion yn rheolaidd. Mae gweithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n briodol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi priodol sy'n cael eu cyflawni'n llawn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn derbyn gwybodaeth am berfformiad yr ysgol ac am weithrediad cynlluniau penodol. Maent yn datblygu'n briodol yn eu rôl o herio'r ysgol a gosod targedau

meintiol. Maent wedi dechrau dadansoddi data'r ysgol ac yn trafod perfformiad yr ysgol o'i gymharu gydag ysgolion tebyg. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar dueddiadau mewn agweddau ar y data.

Mae camau cadarnhaol wedi eu cymryd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae staff yr ysgol wedi cydweithio gydag ysgolion eraill i rannu'r arfer dda mewn amryw o feysydd gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi datblygu prosesau priodol ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar amrediad addas o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth am gyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol, tueddiadau mewn data a monitro ar wahanol agweddau ar waith yr ysgol. O fewn cyfarfodydd staff trafodir deilliannau'r hunanarfarnu, ond nid oes cofnodion manwl yn cael eu cadw yn nodi'r prif faterion a chamau dilynol. Mae'r ysgol yn casglu barn y rhieni a'r disgyblion yn briodol drwy holiaduron sy'n bwydo agweddau o'r adroddiad hunanarfarnu

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol ac yn adnabod yn glir yr elfennau i'w datblygu yn ogystal â'r cryfderau sy'n bodoli.

Er fod y broses hunanarfarnu yn adnabod yn glir yr elfennau i'w datblygu ymhellach, nid yw'r blaenoriaethau o fewn cynllun datblygu'r ysgol yn cyfeirio'n ddigon penodol at y rhain bob amser. Nid yw'r targedau yn nodi yn ddigon manwl y camau i'w dilyn, ac yn aml, mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu cynnydd yn erbyn y targedau yn aneglur.

Mae'r athrawon o fewn yr ysgol yn datblygu a rhannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos hefyd â nifer o ysgolion eraill mewn cydweithrediad er mwyn rhannu arferion da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio yn dda gyda'i phartneriaid ac mae'n chwarae rôl amlwg a phwysig yn ei chymuned. Mae rhieni'r ysgol yn gwirfoddoli i wrando ar ddarllenwyr, i redeg clwb garddio ysgol ac i drefnu ffair ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth. Mae grwpiau meithrin yn defnyddio'r neuadd yn rheolaidd, gyda hyn yn cyfrannu'n briodol at drefniadau pontio effeithiol gyda dosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r gymuned yn gwneud defnydd da o'r neuadd a gwahoddir aelodau o'r gymuned i gael cinio yn yr ysgol a siarad am eu profiadau gyda'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymweld â'r cartrefi henoed a'r eglwys yn rheolaidd ac yn derbyn ymwelwyr o'r eglwys i arwain gwasanaethau a chynnal defodau'r eglwys. Mae hyn yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas dda gyda'r awdurdod lleol, yn ogystal â'r heddlu a'r gwasanaeth nyrs ysgol. Mae cynllun trosglwyddo pwrpasol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd leol sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefelau staffio priodol o fewn yr ysgol ac mae'r dosbarthiadau wedi eu trefnu'n effeithiol o ystyried y niferoedd ym mhob blwyddyn. Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda ac yn rhannu eu harbenigedd wrth addysgu grwpiau oedran gwahanol yn ôl y galw. Mae'r staff ategol yn cyflawni eu rolau yn dda.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol yn briodol ac mae'r hyfforddiant ar gyfer y staff yn unol â'u targedau proffesiynol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn anwastad dros gyfnod oherwydd niferoedd bychan y disgyblion.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg ac wedi bod yn gyson uwch dros gyfnod ac yn y 25% neu'r 50% uchaf. Mae canlyniadau lefel 3 yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu ac ysgolion Cymru.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn agos at gyfartaledd canrannau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau Saesneg yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chyfartaledd canrannau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau Cymru ac ysgolion tebyg.

At ei gilydd, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o ran y canran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011 a thros gyfnod o bum mlynedd yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn Saesneg ond yn y 50% isaf a'r 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 a thros gyfnod o bum mlynedd.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn 2011 yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r teulu a Chymru yn y Gymraeg. Dyma fu'r patrwm dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ganran yn is na'r teulu a Chymru yn y pynciau eraill yn 2011. Mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na chanran y teulu a Chymru yn y Saesneg mewn tair allan o'r pum mlynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn gyson is na'r teulu a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth ers pum mlynedd ac eithrio mewn mathemateg yn 2009-2010 pan roedd o fewn y 25% uchaf.

Nid oes gwahaniaethau amlwg ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gysylltiedig â chyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion hyn, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy'n unol â'u gallu. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth 25 o ymatebion i law. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ymhob agwedd.

Mae pob un yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac yn datgan fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Dywedant fod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda adeg dechrau yn yr ysgol. Maent hefyd o'r farn fod yr ysgol yn annog y disgyblion i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob rhiant o'r farn fod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol, bod yr addysgu yn dda, bod y staff yn trin y disgyblion yn deg ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau. Credant hefyd fod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae'r rhan fwyaf yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Derbyniant wybodaeth gyson am gynnydd y disgyblion ac maent yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu nodi problem. Maent hefyd o'r farn fod yna amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer yn datgan fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 39 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ymhob agwedd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datgan eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn dweud fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae dysgwyr hefyd yn nodi eu bod yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â hwy os byddant yn poeni neu yn gweld y gwaith yn anodd. Maent o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd a bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer gwneud eu gwaith.

Nododd llawer o'r disgyblion fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol, nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Michael Hayes | Arolygydd Tîm |
| Alan Parry | Arolygydd Lleyg |
| Robert Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyn Griffith | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.